## PLANHIGION GORESGYNNOL AR DIR GWYLLT

**Dyma rai enghreifftiau o'r problemau sy'n cael eu hachosi gan blanhigion gardd a phlanhigion pwll sydd wedi mynd yn blanhigion goresgynnol**



Mae planhigion sydd wedi dianc o erddi e.e. crib-y-ceiliog yn gwthio planhigion eraill o'u lle ac yn bygwth cynefinoedd pwysig.



Mae rhai rhywogaethau yn lledaenu afiechyd. Mae rhododendron yn lletya afiechydon planhigion sy'n bygwth rhywogaethau brodorol gan gynnwys coed derw, ffawydd a llarwydd.



Mae planhigion dyfrol fel dail-ceiniog arnofiol yn tagu dyfrffyrdd gan niweidio'r cynefin, atal defnydd o gychod, a chynyddu'r risg o lifogydd.

Gall rheoli fod yn gostus. Nid yw briallu'r dŵr yn gyffredin ym Mhrydain hyd yma, ond bydd yn costio miliynau o bunnoedd i'w reoli os yw'n ymledu ymhellach, fel sydd wedi digwydd mewn rhannau o Ewrop.



## AWGRYMIADAU YCHWANEGOL AR GYFER PLANHIGION PWLL A PHLANHIGION ACWARIWM

Pan fyddwch chi'n prynu planhigyn dyfrol newydd, tynnwch haen wyneb y compost a golchwch y planhigyn mewn bwced, cyn i chi ei osod yn eich pwll.

Defnyddiwch hwn ac unrhyw ddŵr gwastraff arall o'ch pwll neu eich acwariwm ar eich lawnt neu i ddyfrio planhigion yn eich gardd, i ffwrdd o ardaloedd dyfrol (neu ddraeniau sy'n llifo iddyn nhw).

Os yw'ch pwll yn agos at wlypdir neu ardal ddyfrol, dylech osgoi defnyddio unrhyw blanhigion nad ydynt yn frodorol i'r ardal leol, ac os bydd unrhyw blanhigion goresgynnol yn ymddangos, dylech eu tynnu cyn iddyn nhw ymledu i dir gwyllt.

Defnyddiwch blanhigion dyfrol diangen yn eich gardd fel tomwellt, gan gadw hyn i ffwrdd o ardaloedd dyfrol neu ddraeniau.

Gofalwch am greaduriaid eich pwll - gadewch unrhyw blanhigion rydych chi wedi'u tynnu i ddraenio am ychydig oriau ar ymyl y pwll cyn eu gwaredu, er mwyn caniatáu i unrhyw fywyd gwyllt ddychwelyd i'r dŵr.

Ni ddylid byth rhyddhau creaduriaid a physgod pwll i diroedd gwyllt, chwaith. Mae'n bosib na fyddan nhw'n goroesi, ac os gwnân nhw, gallen nhw niweidio bywyd gwyllt brodorol.

**Dysgwch fwy am blanhigion goresgynnol a sut y gallwch chi helpu i atal y lledaeniad yn:**

**nonnativespecies.org/beplantwise**

Department for Environment Food & Rural Affairs
The Scottish Government / Riaghaltas na h-Alba
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
OATA
HTA
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales

# MYND AT WRAIDD Y MATER

## Amddiffyn bywyd gwyllt a'r amgylchedd rhag planhigion goresgynnol:

### canllaw i arddwyr

**Dysgwch fwy yn nonnativespecies.org/beplantwise**

## MYND AT WRAIDD Y MATER

## GALL EICH PLANHIGION FYND YN BLANHIGION GORESGYNNOL OS YDYN NHW'N DIANC Y TU HWNT I FFIN EICH GARDD.

Mae'r rhan fwyaf o'n gerddi'n cynnwys planhigion nad ydyn nhw'n rhai brodorol i'r DU – o rannau eraill o'r byd y daethon nhw'n wreiddiol. Er y gall planhigion estron ein helpu i greu arddangosfeydd addurnol, hardd i'w mwynhau, os byddan nhw'n dianc i dir gwyllt mae rhai yn mynd yn blanhigion goresgynnol.

### Gall planhigion goresgynnol achosi problemau difrifol i'r amgylchedd a'r economi

Gall planhigion goresgynnol ledaenu afiechydon a phlâu planhigion, gan gystadlu â phlanhigion eraill am le, golau, maetholion a dŵr. Gall hyn effeithio ar adar, gloÿnnod byw a phryfed eraill sy'n dibynnu arnyn nhw, a gallai fygwth goroesiad rhywogaethau planhigion prin. Unwaith y byddan nhw wedi sefydlu, maen nhw'n gallu bod yn gostus i'w rheoli ac fe allan nhw effeithio ar ein ffordd o fyw, e.e. trwy niweidio adeiladau neu dagu dyfrffyrdd gan gynyddu'r risg o lifogydd. Gall rhai hyd yn oed fod yn niweidiol i'n hiechyd.

Gall y difrod sy'n cael ei achosi gan blanhigion goresgynnol fod yn rhywbeth na ellir ei ddad-wneud a dydyn ni ddim bob amser yn gwybod pa rywogaethau fydd yn broblem, felly mae'n bwysig iawn peidio â phlannu unrhyw beth mewn tir gwyllt, hyd yn oed planhigion sy'n frodorol i rannau eraill o Brydain.

**Gallwch chi helpu i ddiogelu'r amgylchedd er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei fwynhau trwy atal eu lledaeniad.**

## Ewch at Wraidd y Mater trwy ddilyn ein cynghorion:

## NABOD EICH PLANHIGION

### Dewiswch y planhigion cywir ar gyfer eich pwll, acwariwm a nodweddion dŵr eraill

Ymchwiliwch i blanhigion cyn i chi eu prynu er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn addas ar gyfer eich anghenion, yn hawdd eu gwaredu, ac na fyddan nhw'n mynd yn rhai goresgynnol. Efallai y bydd staff canolfannau garddio yn gallu helpu, neu ewch i'n gwefan i gael adnoddau.

Ystyriwch blanhigion brodorol, neu dewiswch blanhigion eraill nad ydynt yn rhai goresgynnol.

Peidiwch byth â chymryd planhigion o diroedd gwyllt, gall hyn fod yn anghyfreithlon a gallai niweidio'r amgylchedd.

Byddwch yn ofalus pan fyddwch chi'n rhannu planhigion gyda ffrindiau a theulu oherwydd efallai y byddwch chi'n trosglwyddo planhigion goresgynnol, plâu neu afiechydon planhigol, a hynny ar ddamwain.

Oeddech chi'n gwybod ei bod hi'n anghyfreithlon rhannu neu werthu rhai planhigion gardd a phlanhigion phwll? Edrychwch ar ein gwefan am fanylion.

## STOPIO RHAG YMLEDU

### Cadwch eich planhigion yn eich pwll neu eich acwariwm a pheidiwch â phlannu unrhyw beth mewn tir gwyllt

Gosodwch blanhigion newydd i ffwrdd o ymylon eich gardd fel na fydd modd iddyn nhw 'neidio dros y ffens' a lledaenu i dir gwyllt, a thynnwch unrhyw ymledyddion ac eginblanhigion sy'n dechrau ymledu ymhellach.

**Dysgwch fwy yn nonnativespecies.org/beplantwise**

Os oes gennych chi blanhigyn goresgynnol yn eich gardd, tynnwch bennau hadau a chodennau gwywedig yn rheolaidd a'u gwaredu'n ofalus er mwyn eu hatal rhag lledaenu ar y gwynt.

Os ydych chi'n defnyddio'ch offer garddio yng ngerddi pobl eraill neu ar gyfer gwaith gwirfoddol mewn ardaloedd cefn gwlad, golchwch nhw'n rheolaidd i'w cadw'n rhydd o ddarnau o blanhigion, hadau neu afiechydon planhigol.

## COMPOSTIO Â GOFAL

### Gwaredwch eich planhigion, gwreiddiau, chwyn, hadau a dŵr sydd wedi'u taflu o'r neilltu, mewn ffordd gyfrifol

Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw beth rydych chi'n ei dynnu o'ch gardd, pwll, neu eich acwariwm yn mynd i diroedd gwyllt, fe allech chi fod yn torri'r gyfraith os digwydd hynny.

Compostiwch eich planhigion! Mae compostio gartref yn gyfeillgar i'r amgylchedd a bydd y compost o fudd i'ch gardd. Edrychwch ar ein gwefan yn gyntaf er mwyn gweld a oes gennych chi unrhyw blanhigion goresgynnol nad oes modd eu compostio. Cadwch lygad am unrhyw dyfiant newydd yn eich tomen gompost a gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei ddadelfennu'n iawn cyn ei ddefnyddio.

Fel arall, gall y rhan fwyaf o blanhigion gardd fynd yn eich bin gwastraff gardd gan y cyngor os oes un gennych chi, ond byddwch yn ymwybodol bod rheolaethau ychwanegol ynghylch gwaredu rhai planhigion goresgynnol. Edrychwch ar ein gwefan am fanylion, a gwiriwch beth fydd eich cyngor lleol yn ei dderbyn.

Os na allwch gompostio gartref neu os oes gennych chi blanhigyn na allwch chi ei roi yn eich bin gwastraff gardd gan y cyngor, fe allech chi sychu planhigion a'u llosgi, ond gwnewch yn siŵr fod eich cyngor lleol yn caniatáu hyn.